

Adroddiad i'r: Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol

Dyddiad y cyfarfod: 17 Mawrth 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: David Wilson, Swyddfa Archwilio Cymru

Awdur yr Adroddiad: Steve Gadd, Pennaeth Cyllid ac Asedau

Teitl Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2021-22

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer 2021-22.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Rhoi gwybod i Lywodraethu Corfforaethol am y pynciau allweddol y bydd Archwilio Cymru yn ymdrin â hwy yn eu gwaith ar Gyngor Sir Ddinbych yn 2021-22.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn nodi'r cynllun ac yn cael cyfle i ofyn cwestiynau i ddeall cyd-destun a ffocws y cynigion.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Cyn pob blwyddyn ariannol mae Archwilio Cymru yn cyhoeddi cynllun archwilio ar gyfer y meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt ar gyfer pob awdurdod lleol. Datblygir y cynllun ar y cyd â Chyngor Sir Ddinbych ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg uchel. Trafodwyd y cynllun yn ddiweddar gyda'r SLT ar 11 Chwefror. Roedd Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw.

4.2. Mae'r Cynllun Archwilio amgaeedig yn nodi'r meysydd archwilio, sef:
- Datganiadau Ariannol (un o swyddogaethau statudol Archwilio Cymru). Ceir manylion am gwmpas y maes gwaith hwn ar dudalennau 6-10 o'r atodiad

amgaeedig.

- Archwilio Perfformiad, i gynnwys ffocws ar ein Sefyllfa Ariannol; Cynllunio Adferiad o Covid-19; ymateb i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a'n Cynllun Lleihau Carbon. Gweler t11-12 mwy o fanylion.

4.3. Nid yw'r manylion amseru yn ystod y flwyddyn wedi'u cyfrifo eto, ond bydd Archwilio Cymru yn rhoi gwybod i Gyngor Sir Ddinbych am ei gynlluniau drwy gyfarfodydd rheolaidd â'r Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio. Dylid nodi bod y cynllun yn hyblyg, gan gydnabod ei fod yn agored i'r risg y bydd Covid-19 yn effeithio ar amserlenni.

4.4. Bydd yr holl adroddiadau ar y pynciau uchod yn cael eu rhannu â'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio pan y byddant ar gael.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Bydd gwaith Archwilio Cymru yn cwmpasu rhai o'r Blaenoriaethau Corfforaethol (e.e. yr Amgylchedd) ac, yn fwy cyffredinol, effeithiolrwydd rheolaethau ariannol a pherfformiad yng Nghyngor Sir Ddinbych.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Y ffi arfaethedig yw £306,638 (gweler t14 am fanylion).

7. Beth yw prif gasgliadau'r Aseiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Adroddiad ar gynllun gwaith gan sefydliad allanol yw hwn, felly nid oes angen aseiad o'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Trafodwyd hyn gyda'r SLT, pan oedd Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn bresennol fel grŵp rheoleiddio i drafod meysydd risg yn y Cyngor er mwyn gallu datblygu'r cynllun hwn.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r archwiliad blynyddol yn ddarpariaeth statudol. Mae'r ffioedd yn ymrwymiad cyllideb presennol i'r awdurdod.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau yn gysylltiedig â'r cynllun hwn.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Nid oes angen penderfyniad. Mae'r adroddiad hwn at ddibenion gwybodaeth.